Healthcare Inspectorate Wales | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol [Â rhybudd]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, **Practis Deintyddol Murray Street**

18 Tachwedd 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk



ISBN digidol 978-1-4734-2777-8


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 2

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 6

Profiad y Claf .......... 6

Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .......... 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12

Ansawdd yr Amgylchedd .......... 15

6. Y Camau Nesaf .......... 17

Atodiad A .......... 18

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â rhybudd o Bractis Deintyddol Murray Street yn 16 Stryd Murray, Llanelli, SA15 3BS yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 18 Tachwedd 2014.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheoli ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau gan AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*[1].

Yn ystod yr arolygiad rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwiliad o sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o offer a'r safle

---

[1] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar y 1[af] o Ebrill, 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar wefan y practis.

Ar ddiwedd pob arolygiad rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi yn ystod arolygiad deintyddol yn cael eu hysbysu i'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Murray Street yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llanelli yn Sir Gaerfyrddin yn bennaf. Mae'r practis yn ffurfio rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, tri glanweithydd rhan amser, chwe nyrs, un derbynnydd a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Preifat a phlant / Gofal deintyddol cyffredinol Preifat a GIG
- Mewnblaniadau
- Botocs
- Gwynnu dannedd

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Practis Deintyddol Murray Street yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar safon y gofal a dderbyniwyd ganddynt yn y practis a'u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd adborth gan holiaduron cleifion AGIC a holiaduron y practis yn gadarnhaol ynglŷn â phob maes o ofal.

Cawsom ein sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflawni mewn ffordd a fwriadwyd i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, cawsom ein hargyhoeddi bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol ac effeithlon, gyda systemau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch cleifion.

Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis fod yn sicr bod yr adeilad yn ddiogel, ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, a'i fod yn darparu amgylchedd cyfforddus i gleifion dderbyn triniaeth ynddo.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar safon y gofal a dderbyniwyd ganddynt yn y practis a'u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd adborth gan holiaduron cleifion AGIC a holiaduron y practis yn gadarnhaol ynglyn â phob maes o ofal.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion mewn ymgais i geisio eu barn ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Hefyd, gwnaethom siarad â nifer fach o gleifion oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad (chwech o bobl).

Dychwelwyd un deg saith holiadur.  Roedd y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth am rhwng dwy flynedd a 60 mlynedd.  Nododd pob un ohonynt (23 o bobl) fod y tîm practis bob amser yn groesawgar gyda sylwadau fel;

> *'Mae'r tîm practis bob amser yn groesawgar iawn tuag ataf'*
>
> *'Maen nhw'n gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol'*
>
> *'Tîm cyfeillgar, proffesiynol ar y cyfan'*

Roedd pawb yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Datgelodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a sgyrsiau gyda phedwar o'r deintyddion ffyrdd cyson o weithio. Cadarnhaodd pob deintydd y trafodir opsiynau triniaethau gyda chleifion ar ôl ymgynghoriadau. Roedd y cofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos, yn y mwyafrif o achosion, bod y cofnodion yn cael eu diweddaru ar ôl pob ymweliad. Roedd y cofnodion yn rhoi manylion y driniaeth a roddir, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod pobl yn derbyn cynllun triniaeth i fynd adref gyda nhw i'w ddarllen.  Gwelsom fod cleifion y GIG yn llofnodi'r cynllun triniaeth ond nad oedd cleifion preifat yn gwneud hynny.  Y llofnod hwn yw'r dystiolaeth o gydsyniad i driniaeth ac felly dylai pob claf lofnodi'r ffurflen.

***Argymhelliad***

***Mae cadw cofnod o gydsyniad i driniaeth a chynlluniau gofal a thriniaeth y cytunir arnynt yn orfodol dan Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru 2010.***

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn ynglŷn â sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau yn dangos y byddai cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar ofal pan fyddai'r practis ar gau. Er hynny, dywedodd wyth o gleifion nad oeddent yn siŵr ond y byddent yn ffonio'r ddeintyddfa am gyngor. Gwelsom fod arwydd yn dangos rhif cyswllt mewn argyfwng ar y drws ffrynt. Dywedodd rheolwr y practis y gellid cysylltu â'r deintydd ar alwad trwy Galw Iechyd Cymru hefyd neu drwy ffonio rhif a oedd ar gael ar beiriant ateb y practis.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai pobl drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym pan oedd angen. Nododd un deg naw o bobl eu bod yn fodlon ar y system hon ac nad oeddynt wedi profi oedi wrth drefnu amser apwyntiad. Dywedodd pedwar claf eu bod wedi profi oedi, ond oedi "bach", "bach iawn weithiau - ond dim problem" a "weithiau, ond dim am ormod o amser".

Roedd arwyddion eglur ar flaen yr adeilad yn dangos amseroedd agor y practis.

Roedd proses gwyno i'w gweld ar wal yr ystafell aros i lawr y grisiau ond nid oedd yn amlwg iawn i gleifion. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y practis a chawsom nad oedd y broses yn hollol gyson â'r canllawiau 'Gweithio i Wella'[2]. Cadarnhaodd rheolwr y practis y byddai hyn yn derbyn sylw cyn gynted â phosibl. Gwnaethom nodi hefyd er bod cyfeiriad y GIG ar gael ar y broses, i gleifion gyfeirio ato gyda phryderon; nad oedd cyfeiriad AGIC ar y broses, ac mae angen cywiro hyn. Pan ofynnwyd i gleifion a fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu leisio pryder dywedodd hanner ohonynt y byddent yn gwybod. Fodd bynnag, roedd taflen wybodaeth ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth berthnasol ynghylch y practis, gan gynnwys sut i leisio pryder (cwyn). Ni chodwyd unrhyw bryderon gan unrhyw un yn ystod ein harolygiad.

***Argymhelliad***

***Mae angen i'r broses pryderon / cwynion gydymffurfio'n llawn â safonau 'Gweithio i Wella'.***

**Dylai dogfen y broses gwynion, sydd i'w gweld yn ystafell aros y cleifion, gynnwys cyfeiriad AGIC er mwyn i gleifion preifat allu troi ato pe bai angen.**

---

[2] Gweithio i Wella yw'r prosesau integredig ar gyfer codi, ymchwilio a dysgu o bryderon (cwynion). Mae pryderon yn faterion sydd wedi'u nodi yn sgil digwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff GIG Cymru, honiadau ynglŷn â gwasanaethau a ddarperir gan gorff sy'n gyfrifol yng Nghymru.

Pan gawsant eu holi am eu barn am y gwasanaeth cyffredinol a dderbyniwyd ganddynt dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon, "hollol fodlon","ydw, rwy'n teithio o Gaerdydd i weld y deintydd", "ardderchog wir" a "100 y cant".

Roedd grisiau i bob deintyddfa ond dangoswyd ramp symudol i ni oedd yn helpu cleifion â phroblemau symudedd i fynd i'r ddeintyddfa ar y llawr daear a oedd â thri gris. Gwnaethom siarad ag un claf â phroblemau symudedd a chadarnhawyd bod pob cymorth yn cael ei roi i bobl ddefnyddio'r grisiau, a hynny mewn modd parchus.

## *Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Cawsom ein sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflawni'n gyson mewn ffordd a fwriadwyd i sicrhau diogelwch a lles cleifion.**

### Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion yn cael eu cadw yn y practis ar gronfa ddata gyfrifiadurol, gyda rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chadw ar bapur. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol 16 claf (pedwar cofnod cleifion ar gyfer pob deintydd yn gweithio yn y practis). Dangosodd y cofnodion fod anghenion cleifion yn cael eu hasesu, a bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cofnodi'n gadarn. Cafwyd rhai anghysondebau gyda llai o wybodaeth am gynlluniau triniaeth i gleifion y GIG. Roedd diweddariadau i gyflyrau meddygol yn holl gofnodion y cleifion er nad oedd pob deintydd yn holi am y defnydd o alcohol a thybaco. Roedd pob claf wedi cael ei weld eto o fewn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth (NICE)[3].

Lle'r oedd cleifion wedi derbyn radiograffau (pelydrau-x), gwelwyd tystiolaeth o werthusiad clinigol o'r pelydr-x er mwyn sicrhau bod ansawdd y llun yn ddigonol. Cynhaliwyd archwiliadau o'r gwerthusiadau bob mis hefyd. Mae hyn sicrhau arfer diogel ac effeithiol.

### Cadw cyffuriau ac offer brys

Gwelsom fod cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn y practis yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwelsom hefyd fod trefniadau ar waith i sicrhau bod cyffuriau o fewn cyfnod eu dyddiad dod i ben; fodd bynnag mae angen i'r system hon gynnwys gwirio pwysedd yr ocsigen symudol.

***Argymhelliad***

***Mae angen cofnodi dyddiad ar gyfer gwirio'r ocsigen symudol.***

---

[3]Mae canllawiau clinigol ail-alw cleifion deintyddol NICE yn helpu clinigwyr i bennu cyfnodau ail alw rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol i anghenion cleifion unigol.

Roedd swyddog cymorth cyntaf penodol yn y practis, ac roedd y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei gadw gyda'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng. Roedd offer a ddefnyddir mewn argyfwng ar gael, ac roedd rhai eitemau wedi eu storio ym mhob deintyddfa yn ogystal ag yn y pecyn cymorth cyntaf.

**Dadheintio**

Gwnaethom edrych ar y gweithdrefnau ar waith ar gyfer dadheintio offerynnau a gwelsom er bod rhai mesurau priodol ar waith, nad oedd ystafell ddadheintio benodol yn y practis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y mater hwn wedi cael ei drafod a bod cynlluniau ar waith eisoes i gynnwys hyn. Roedd y broses gyfredol yn dderbyniol a gwelsom dystiolaeth o gadw cofnodion; ardaloedd pendant, wedi eu diffinio; cofnod dilysu ar gyfer pob cylchred golchi; y cynllun i ddefnyddio diheintyddion i lanhau a diheintio offer dwylo, a defnydd o offer glanhau penodol ym mhob deintyddfa.  Roedd y practis wedi prynu awtoclafau newydd yn ddiweddar. Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a'r uwch ddeintydd a ddywedodd wrthym fod y glanhawr uwchsonig yn cael ei ddefnyddio pan oedd cleifion yn y ddeintyddfa.  Gwnaethom gyfeirio at ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) nad ydynt yn cymeradwyo'r arfer hwn. Mae hyn i rwystro unrhyw groes heintio rhwng cleifion.

***Argymhelliad***

***Ni ddylid defnyddio'r glanhawr uwchsonig pan fydd cleifion yn y ddeintyddfa.***

Cadarnhaodd rheolwr y practis bod archwiliadau rheoli heintiau (gwiriadau) yn cael eu cynnal yn rheolaidd, fodd bynnag nid oedd y rhain yn unol â gofynion WHTM 01-05.  Dylai'r gwiriadau hyn gael eu cynnal o leiaf bob chwe mis.

***Argymhelliad***

***Mae angen cynnal archwiliadau rheoli heintiau yn unol â chanllawiau WHTM  01-05.***

**Offer radiograffeg**

Ni nodwyd unrhyw bryderon ynglŷn â'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd. Roedd ymgynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd penodol yn y practis, roedd ardaloedd rheoledig yn cael eu dangos a'u diffinio'n glir, roedd cofnod o ymchwiliad i lefelau dos a system sicrhau ansawdd o ran ansawdd y lluniau yn y practis. Gwelsom hefyd y dystysgrif gwirio offer radiograffeg.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Ar ddiwrnod yr arolygiad, cawsom sicrwydd bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol ac effeithlon, a bod systemau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch cleifion.**

Mae'r practis yn darparu gofal a thriniaeth ddeintyddol breifat yn bennaf, gyda rhai plant a chleifion sydd wedi eithrio o'r GIG. Ar adeg ein harolygiad, roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd.

Mae'r practis yn un o'r ychydig bractisau annibynnol yn ardal Llanelli. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda gyda gwasanaeth yn cael ei gynnal gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel. Roedd staff yn gallu mynd at y polisïau hyn o fewn y practis er mwyn gwirio eu bod yn eu deall a sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu priodol. Fodd bynnag, nid oedd dyddiadau adolygu ar rai polisïau i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

***Argymhelliad***

***Rhaid i'r polisïau a'r gweithdrefnau gydymffurfio â deddfwriaeth Cymru ac arferion gorau, a rhaid nodi'r dyddiad arnynt er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.***

Roedd gan y practis system archwilio i sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig o safon dderbyniol. Roedd y practis wedi dechrau ond heb gwblhau'r archwiliad 'Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05'. Cawsom ein sicrhau gan ddeintydd a rheolwr y practis y byddai hwn yn cael ei gwblhau o fewn tri mis ac y byddai'r cynllun gwella'n cael ei anfon at AGIC.

***Argymhelliad***

***Mae angen cwblhau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac anfon y cynllun gwella at AGIC erbyn 28 Chwefror 2015.***

Roedd system wedi ei sefydlu yn y practis i asesu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu arni. Mae hyn yn sicrhau bod y practis yn cynnig gwasanaeth sy'n cwrdd ag anghenion ei boblogaeth ac yn gwella'r gwasanaeth yn unol â barn cleifion.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym a chadarnhaodd staff bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob chwech i wyth wythnos. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu recordio ac roedd pob aelod o staff yn derbyn copi i'w ddarllen. Roedd hyn

yn gyfle i godi unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir, cyfleu gwybodaeth newydd / berthnasol i'r tîm deintyddol, a thrafod canlyniadau holiaduron cleifion ac archwiliadau.

Gwelsom fod tîm staff wedi'i hen sefydlu yn y practis a bod rhai ohonynt wedi gweithio yno am flynyddoedd lawer; Nid oedd unrhyw newidiadau wedi bod yn y tîm deintyddol am flynyddoedd. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal gan staff cyfarwydd.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn credu eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan reolwr y practis ac y byddent yn gyfforddus i godi unrhyw bryder a allai fod ganddynt yn ymwneud â'r gwaith. Cafwyd tystiolaeth o waith tîm cydlynol ac effeithiol gyda'r holl staff yn deall yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig ganddynt yn eu swydd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff. Roedd y rhain yn cadarnhau bod gan staff fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w rôl.

Gwelsom dystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus aelodau unigol o staff sy'n sicrhau bod eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Ni chafwyd gwerthusiadau staff blynyddol, sy'n ofynnol gan safonau 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well'.

***Argymhelliad***

***Rhaid i staff dderbyn gwerthusiad blynyddol i ddangos tystiolaeth bod ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir ganddynt yn cael ei fonitro.***

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd pob aelod o staff yn meddu ar dystysgrif gyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n ofynnol dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat[4].

***Argymhelliad***

***Rhaid i bob deintydd sy'n gwneud unrhyw waith preifat feddu ar dystysgrif gwiriad manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi ei chyhoeddi yn ystod y tair blynedd diwethaf.***

---

[4]Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Roedd y rhain yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â deintyddion yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Roedd cytundeb ffurfiol gyda'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer unrhyw broblemau iechyd galwedigaethol posib gan y staff fel brechiadau, neu achos o anaf a achosir gan nodwydd. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff wiriadau priodol i atal croes heintio cleifion.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ynglŷn â rhoi cymorth i staff newydd a dywedwyd wrthym nad oedd gan y practis raglenni ymsefydlu neu ymgyfarwyddo gan nad oedd unrhyw staff newydd wedi ymuno â'r practis ers amser.

***Argymhelliad***

***Mae angen i'r practis sefydlu rhaglenni ymsefydlu ac ymgyfarwyddo ffurfiol i baratoi ar gyfer staff newydd.***

Dywedodd y staff wrthym fod unigolyn penodedig yn gyfrifol am gymorth cyntaf, dadheintio ac iechyd a diogelwch. Gwelsom fod hysbysiad iechyd a diogelwch ar gefn drws oedd yn arwain i'r swyddfa ar y llawr isaf. Gwnaethom holi rheolwr y practis a ellid ei symud i ardal fwy cymunedol a chytunwyd i wneud hynny. Mae hyn yn sicrhau bod yr arwydd yn weladwy i staff a'r bobl sy'n ymweld â'r adeilad.

Fe wnaethom edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw oedd yn y practis oedd yn dangos bod systemau addas a phrosesau rheoli ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael ei archwilio yn amserol ac yn unol â gofynion gorfodol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis fod yn sicr bod yr adeilad yn ddiogel, ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, a'i fod yn darparu amgylchedd cyfforddus i gleifion dderbyn triniaeth ynddo.**

Mae Practis Deintyddol Murray Street yn bractis sefydledig yng nghanol tref Llanelli. Nid oes maes parcio penodol, ac mae'r lleoedd parcio ar hyd y ffyrdd ger y practis yn brin iawn. Fodd bynnag, mae maes parcio aml-lawr o fewn pellter cerdded byr.

Mae cleifion ag anawsterau symudedd yn gallu mynd i mewn i adeilad y practis. Mae hyn oherwydd bod ychydig o lethr i mewn i'r adeilad yn hytrach na gris. Mae canllaw cydio y tu allan i'r adeilad hefyd i helpu wrth gerdded i fyny'r llethr.

Mae gan y practis dderbynfa ac ardal aros ar y llawr daear a phedair deintyddfa wedi eu trefnu dros ddau lawr. Cadarnhaodd arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad fod maint y mannau aros yn briodol ar gyfer nifer y deintyddfeydd.

Cadarnhaodd taith o amgylch yr adeilad bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, yn fewnol ac yn allanol. Cafwyd rhaglen ailaddurno yn ddiweddar.  Roedd cyfleusterau toiled cyhoeddus ond nid oedd hwn yn hygyrch iawn i ddefnyddwyr cadair olwyn.  Roedd diffoddwyr tân wedi eu gosod mewn mannau strategol, ac roeddent wedi cael eu profi'n rheolaidd.

Roedd y mannau aros, y deintyddfeydd a'r mannau cylchredeg yn lân, yn daclus ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n foddhaol.

Roedd y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion papur a chofnodion electronig yn ddiogel yn aneglur. Yn ôl pob golwg roedd dogfennau papur yn cael eu cadw'n briodol ond roedd y man 'oddi ar y safle' i gadw ffeiliau electronig yn llai eglur. Dywedodd rheolwr y practis wrthym mai cyfrifoldeb yr uwch ddeintydd oedd sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni ond ni allai egluro'r broses i ni.

***Argymhelliad***

***Mae angen i'r man 'oddi ar y safle' ar gyfer cadw gwybodaeth electronig gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a safonau Gwneud yn Dda Gwneud yn Well 2010.***

Roedd rhagofalon diogelwch hefyd ar waith i atal mynediad heb awdurdod i fannau yn yr adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio gan gleifion.

Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn cael eu harddangos yn y cyntedd ac ar ffenest y practis.  Ni welsom restr o'r holl

staff sy'n gweithio yn y practis gyda'u rhifau cofrestru a'u teitlau. Dylai hon fod ar gael, ac yn weladwy, yn y safle ar gyfer cleifion nad oes ganddynt fynediad at y wefan.

***Argymhelliad***

***Rhaid i'r practis arddangos rhestr lawn o staff sy'n gweithio yn y practis, eu teitl a rhifau cofrestriad pan fo hynny'n berthnasol.***

Roedd contractau ar waith ar gyfer symud gwastraff clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus oddi yno, ac roedd y bagiau a'r biniau'n cael eu cadw'n ddiogel. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd diogel i gleifion fynd iddo ac i'r staff weithio ynddo.

Gwelsom nad oedd prawf dyfeisiadau cludadwy wedi cael ei gynnal ers 2012 ond cytunodd yr uwch ddeintydd a rheolwr y practis y byddai'n cael ei gynnal cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn orfodol dan y ddogfen 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well' ond ni cheir unrhyw ganllawiau ynghylch pa mor aml y dylid eu cynnal.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis gynnal prawf dyfeisiadau symudol yn rheolaidd.***

## 6. Y Camau nesaf

O ganlyniad i'r archwiliad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella at ddibenion ansawdd profiad y claf; Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru; rheolaeth ac arweinyddiaeth; a'r Amgylchedd. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Murray Street yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o’r broses barhaus o arolygu deintyddol.

Atodiad A

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Murray Street

## Dyddiad yr Arolygiad: 18 Tachwedd 2014

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| Tud 6 | Mae cadw cofnod o gydsyniad i driniaeth a chynlluniau gofal a thriniaeth y cytunir arnynt yn orfodol dan Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru 2010. | Mae camau gweithredu wedi eu cymryd i sicrhau bod yr holl gleifion - GIG neu Breifat yn cytuno i'w cynlluniau triniaeth ac yn eu llofnodi. | Sue Thomas | Wedi ei gyflawni |
| Tud 8 | Rhaid i'r broses pryderon / cwynion gydymffurfio'n llawn â safonau 'Gweithio i Wella'. | Mae'r weithdrefn pryderon/cwynion yn cydymffurfio'n llawn yn awr. | Sue Thomas | Wedi ei gyflawni |
| Tud 8 | Dylai dogfen y broses gwyno, sy'n weladwy yn ystafell aros y cleifion, gynnwys cyfeiriad AGIC er mwyn i gleifion preifat allu troi ato | Mae poster y broses gwyno wedi cael ei ddiwygio'n awr gyda manylion cyswllt AGIC. Mae hefyd wedi cael ei wneud yn fwy ac wedi ei osod mewn man mwy gweladwy. | Sue Thomas | Wedi ei gyflawni |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | os oes angen. | | | |
| | **Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| Tud 9 | Mae angen cofnodi'r dyddiad pan fydd yr ocsigen symudol yn cael ei wirio. | Mae rhestr wirio wedi cael ei chreu i gael ei llofnodi a'i dyddio pan fydd y silindr ocsigen yn cael ei wirio. | Ruth Morgans | Wedi ei gyflawni |
| Tud 10 | Ni ddylid defnyddio'r glanhawr uwchsonig pan fydd cleifion yn y ddeintyddfa. | Mae holl staff y ddeintyddfa wedi cael cyfarwyddyd i beidio â defnyddio'r glanhawr uwchsonig pan fydd claf yn yr ystafell | Sue Thomas | Wedi ei gyflawni |
| Tud 10 | Mae angen ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal yn awr yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Ruth Morgans | Cyn gynted â phosib |
| | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | | | |
| Tud 14 | Mae'n rhaid i'r polisïau a'r gweithdrefnau gydymffurfio â Deddfwriaeth Cymru ac Arferion Gorau, gan nodi'r dyddiad arnynt er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol. | Mae'r holl bolisïau'n cael eu hadolygu, eu llofnodi a'u dyddio. | Sue Thomas | Ionawr |
| Tud 14 | Mae angen cwblhau archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac anfon y cynllun gwella at AGIC erbyn | Mae'r archwiliad wrthi'n cael ei gynnal yn awr a bydd wedi ei gwblhau erbyn 28 Chwefror 2015. | Ruth Morgans | Chwefror |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 28 Chwefror 2015. | | | |
| Tud 15 | Rhaid i staff dderbyn gwerthusiad blynyddol er mwyn dangos tystiolaeth bod ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir ganddynt yn cael eu monitro. | Mae gwerthusiadau blynyddol ac ati'n cael eu sefydlu yn awr | Sue Thomas | Ionawr |
| Tud 15 | Rhaid i bob deintydd sy'n gwneud unrhyw waith preifat feddu ar dystysgrif gwiriad manylach y swyddfa cofnodion troseddol wedi ei chyhoeddi yn y tair blynedd diwethaf. | Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu sefydlu ar gyfer pob deintydd | Nicola Evans | Ionawr |
| Tud 16 | Mae angen i'r practis gyflwyno rhaglenni ymsefydlu ac ymgyfarwyddo ffurfiol i baratoi ar gyfer staff newydd. | Mae rhaglenni ymsefydlu ac ymgyfarwyddo'n cael eu creu yn awr ar gyfer staff newydd. | Sue Thomas | Ionawr |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| Tud 17 | Mae angen i'r man oddi ar y safle ar gyfer cadw gwybodaeth electronig fod yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2010. | Mae'r man cadw gwybodaeth electronig yn unol â Deddf Diogelu Data. | Edward Jones | Wedi ei gyflawni |
| Tud 18 | Rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu teitlau a'u rhifau cofrestriad pan fo hynny'n berthnasol. | Mae rhestr o staff gyda'u rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi cael ei harddangos yn awr. | Sue Thomas | Wedi ei gyflawni |
| Tud 18 | Dylai'r practis ymgymryd â phrawf dyfeisiadau cludadwy yn rheolaidd. | Mae profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal yn awr. | Sue Thomas | Wedi ei gyflawni |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (wedi'i brintio): Susan C Thomas**

**..........................................................................................**

**Teitl: Rheolwr y Practis....................................................................................**

**Llofnod: Sue Thomas ..........................................................................................**

**Dyddiad: 15/12/2014 ..........................................................................................**